



POLISI IAITH Ysgol Llandygai

Datganiad Cyffredinol

Mae iaith yn ddylanwad unigryw yn natblygiad plentyn ac yn sylfaen pob dysgu ac addysgu. Braint disgyblion yn ysgolion yr Awdurdod hwn yw gallu manteisio ar gyfoeth dwy iaith a dau ddiwylliant ynghyd â'r cyfle i ddatblygu yn addysgol a chymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Seilir y polisi hwn ar bolisi iaith gyfredol yr Awdurdod, ac ar Gynllun Addysg Gymraeg yr Awdurdod, yn ogystal ag ar ofynion statudol a chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ogystal â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd 2013..

Mae meithrin agwedd gadarnhaol tuag at y ddwy iaith yn greiddiol i weithredu'r polisi hwn. Felly hefyd yr angen am godi ymwybyddiaeth disgyblion o'u treftadaeth ac o natur y Cwricwlwm Cymreig. Yn ogystal, dylid defnyddio medrau trawsieithu/sgiliau deuol, er mwyn datblygu'r ddwy iaith fel bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall. Dylid meithrin ymwybyddiaeth disgyblion o'r elfennau gwahaniaethol yn y ddwy iaith a'r elfennau hynny sy'n debyg ynddynt trwy fanteisio ar gyfleoedd i gyfeirio atynt pan fo'n briodol.

Amcan y polisi hwn yw gosod seiliau a fydd yn sicrhau hyfedredd mewn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg i gyfathrebu; mae hyn yn cwmpasu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu a chyd-ddibyniaeth y medrau hyn. Yn y dysgu a'r addysgu mwyaf effeithiol, cânt eu cydblethu wrth i'r disgyblion ymateb i symbyliadau amrywiol mewn cwricwlwm trawsgwricwlaidd gyfoethog.

Ymateb i'r fframwaith llythrennedd:

Amcanion allweddol y FFLIRh yw:

Helpu athrawon **pob** pwnc i adnabod a chynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, ac mae wedi'i rannu'n grwpiau blwyddyn disgrifio'n fanwl gywir y **disgwyliadau cenedlaethol blynyddol ar gyfer llythrennedd a rhifedd** i ddysgwyr 5–14, a dangosyddion dilyniant i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i helpu i asesu **cynnydd dysgwyr** mewn llythrennedd a rhifedd a llunio adroddiadau blynyddol i rieni/ofalwyr yn seiliedig ar asesiadau athrawon fel bod athrawon, dysgwyr a rhieni/gofalwyr i gyd yn glir sut mae dysgwyr yn datblygu a beth yw eu camau nesaf. **Ni fydd data'n cael eu casglu ar lefel genedlaethol.**

Nodweddion allweddol

Mae nodweddion allweddol y FFLIRh yn cynnwys y canlynol. Drwy ddatganiadau o ddisgwyliadau, mae'r FFLIRh yn amlinellu'r sgiliau y disgwyliwn i ddysgwyr eu datblygu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, o 5 i 14 oed, ac mae wedi'i rannu'n grwpiau blwyddyn. Mae'r FFLIRh wedi'i rannu'n gydrannau ar gyfer llythrennedd a rhifedd, sydd yn eu tro wedi'u rhannu'n llinynnau. Y llinynnau llythrennedd yw: llafaredd ar draws y cwricwlwm, darllen ar draws y cwricwlwm ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Y llinynnau rhifedd yw: datblygu ymresymu rhifyddol, defnyddio sgiliau rhif, defnyddio sgiliau mesur a defnyddio sgiliau data. Pwrpas, amcanion a nodweddion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FFLIRh). Mae pob llinyn wedi'i rannu ymhellach yn elfennau, gyda llythrennedd wedi'i rannu'n agweddau hefyd. Mae'r gydran llythrennedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r disgwyliadau yr un fath yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda rhai elfennau gwahanol yn y gydran llythrennedd Cymraeg i adlewyrchu gofynion unigryw'r iaith Gymraeg. Yn ogystal â bod yn ofyniad cynllunio'r cwricwlwm, bydd y FFLIRh hefyd yn cael ei ddefnyddio gan athrawon ar gyfer asesu ffurfiannol. Caiff y FFLIRh ei ddefnyddio i lywio asesiadau athrawon o sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr a chaiff adroddiadau blynyddol eu llunio i rieni/ofalwyr. **Ni fydd data'n cael eu casglu ar lefel genedlaethol.**

Perthynas y FFLIRh a'r cwricwlwm cyfan

Mae'r FFLIRh yn offeryn cynllunio'r cwricwlwm sy'n adeiladu ar yr arferion da a welir heddiw mewn llawer o ysgolion. Mae'n ceisio cyflwyno ymagweddau cydlynol at ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, gan ddangos i athrawon pob pwnc sut y gallant ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Felly, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae'n rhaid i gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd fod yn wirioneddol drawsgwricwlaidd yn hytrach na chanolbwytio ar wersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg.

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol a weithredwyd o 2008 wedi cyflwyno ymagwedd seiliedig ar sgiliau at y cwricwlwm gan geisio sicrhau bod sgiliau'n cael eu datblygu ar draws y cwricwlwm. Mae wedi'i seilio ar y fframwaith sgiliau anstatudol sy'n rhoi sylw i sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Mae'r FFLIRh yn adeiladu ar y disgwyliadau a amlinellir yn y

fframwaith sgiliau. Fodd bynnag, bydd yn ofyniad cwricwlaidd statudol o dan adran 108(9) o Ddeddf Addysg 2002. Bydd hefyd yn cynnig mwy o eglurder i athrawon er mwyn iddynt allu asesu ac olrhain dilyniant sgiliau. Bydd y FfLIRh yn disodli cydrannau cyfathrebu a rhif y fframwaith sgiliau anstatudol. Mae'r cydrannau sgiliau meddwl a TGCh yn parhau yn eu lle er mwyn cynnig arweiniad i ysgolion ar y sgiliau pwysig hyn, a chânt sylw ar wahân mewn canllawiau pellach.

Y FfLIRh ac adolygu'r cwricwlwm ac asesu

Wrth ddatblygu'r FfLIRh bu'n rhaid i ni ystyried yn ofalus beth ddylai'r disgygliadau priodol fod ar gyfer pob oedran ac ym mhob cyfnod allweddol. Yn ystod y broses hon mae cwestiynau wedi codi ynghylch gofynion y cwricwlwm presennol, yn arbennig mewn perthynas â Chymraeg, Saesneg a mathemateg, ac a yw'r lefelau cyrhaeddiad presennol yn y Gorchmynion pwnc yn ddigon trylwyr neu heriol. Mae'r disgygliadau a amlinellir yn y FfLIRh yn ceisio codi'r safon mewn rhai achosion. Rydym wedi achub ar y cyfle i ail-alinio disgygliadau er mwyn sicrhau bod ymagwedd drwyadl gennym at godi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn cyflawni eu potensial. Mae hyn yn golygu bod disgygliadau'r FfLIRh ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn agosach i Lefel 5, ac mae'r disgygliadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn agosach i Lefel 6. Bydd yr adolygiad o'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm yn edrych yn benodol ar hyn a chyfatebiaeth.

Strwythur y FfLIRh

Mae'r FfLIRh yn disgrifio'n fanwl y sgiliau rydym yn disgwyl i blant a phobl ifanc eu caffael a'u meistrolï o 5 i 14 oed. Mae dwy gydran i'r fframwaith – llythrennedd a rhifedd. Fe'u rhennir yn llinynnau fel a ganlyn.

O fewn **llythrennedd** disgygliwn i blant a phobl ifanc fod yn hyddysg mewn:

- llafaredd ar draws y cwricwlwm
- darllen ar draws y cwricwlwm
- ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Mae'r FfLIRh yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn **caffael** ac yn gallu **cymhwyso'r** sgiliau a'r cysyniadau a ddysgwyd i gwblhau tasgau realistig sy'n briodol i'w cyfnod datblygiad. Bydd athrawon yn gallu defnyddio'r FfLIRh i:

- ddatblygu cynnwys y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod cyfle gan bob dysgwr i ddatblygu a mireinio'r sgiliau a amlinellir yn y FfLIRh
- integreiddio llythrennedd a rhifedd yn eu haddysgu – beth bynnag fo'r pwnc
- llywio trafodaethau â rhieni/gofalwyr, dysgwyr ac athrawon eraill am berfformiad dysgwyr
- helpu dysgwyr gyda'u gweithgareddau hunanasesu eu hunain a chynllunio ar gyfer dysgu
- monitro, asesu ac adrodd ar berfformiad dysgwyr unigol
- adnabod dysgwyr a allai gael budd o raglen ymyrraeth neu sy'n gweithio'r tu hwnt i'r disgygliadau sy'n gysylltiedig ag oedran.

Y FfLIRh yn y Cyfnod Sylfaen

Fel y nodwyd yn 'Cefnogi dilyniant i bob dysgwr' uchod, cydnabyddwn na fydd pob plentyn yn gwneud cynnydd yn yr un ffordd, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos datblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar sy'n gallu dilyn trywydd gwahanol. Mae natur flynyddol y FfLIRh yn golygu y gall athrawon sicrhau eu bod yn cynnwys y sgiliau priodol wrth addysgu'r cwricwlwm a'i gynnwys. I blant tair i bump oed, gall patrymau dysgu amrywio mwy ac felly mae'r FfLIRh yn cwmpasu dysgwyr 5–14. Fodd bynnag, yn ystod yr ymarfer ymgynghori, awgrymwyd y byddai'n werth estyn y FfLIRh i'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair i bump oed, a chaiff hyn ei ystyried.

Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Bydd y FfLIRh yn cynnwys pob dysgwr. Felly, rydym wedi llunio cyfres o ddisgygliadau sy'n cynnwys pob dysgwr ac a fydd yn sicrhau bod y rhai sydd ag ADY wedi'u cynnwys ym mhob elfen. Mae dilyniant yn cael ei nodi o'r sgiliau rhagflaenol cynnar a ddisgrifir yn fanwl ym map llwybrau *Ar Drywydd Dysgu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006) (ar gael yn www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/additionaleducationalneeds/routeslearning/?skip=1&lang=cy). Mae'r FfLIRh yn amlinellu sut y mae sgiliau dysgwyr yn cael eu mireinio a'u hestyn wrth iddynt symud tuag at y safonau disgygliedig ar gyfer y dosbarth Derbyn. Ni fydd rhai elfennau sgiliau yn dod i'r amlwg tan gyfnod diweddarach yn y FfLIRh. Mewn achosion o'r fath, mae'r celloedd perthnasol yn y FfLIRh wedi'u lliwio'n llwyd i ddangos hyn.

Bydd athrawon, dysgwyr, rhieni a gofawyr yn defnyddio'r datganiadau dilyniant hyn mewn ffyrdd tebyg i'r rhai a ddisgrifir uchod. Mae'r FfLIRh hefyd yn disgrifio continwmm o ddatblygiad a gall dysgwyr symud ymhellach neu'n gyflymach mewn rhai agweddau nag eraill, gyda chyflawniadau'n cwmpasu sawl blwyddyn. Gall hyn fod yn arbennig o gymwys i ddysgwyr sydd ag ADY, yn enwedig pan fydd anabledd yn atal cyflawni eitemau penodol. Yn achos dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion gynnig mwy o her. Gall lefel yr anhawster gael ei chodi drwy estyn ehangder, dyfnder a chymhlethdod y tasgau.

Y Profion statudol yn ogystal â'r FfLIRh a'r asesiadau ffurfiannol, naratif yn ei erbyn, rydym yn cyflwyno profion darllen a rhifedd cenedlaethol.

Bydd y rhain yn darparu data crynodol, wedi'u casglu a'u dadansoddi'n genedlaethol a'u defnyddio'n rhan o'r model atebolrwydd cenedlaethol. Bydd data profion yn rhoi dangosyddion clir i athrawon o ddatblygiad sgiliau a chynnydd, a bydd yn gwneud cyfraniad pwysig i'r dystiolaeth y mae athrawon yn ei defnyddio i lunio barn flynyddol am y sgiliau y mae dysgwyr wedi'u caffael.

Bydd asesu yn erbyn y FfLIRh a deilliannau profion yn cynnig safbwynt gwahanol ar gynnydd dysgwyr. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn asesu agweddau ychydig yn wahanol ar yr un sgiliau a bod un yn fraslun neu'n olwg crynodol tra bydd y llall yn defnyddio ystod lawer ehangach o dystiolaeth. Pan fydd yn ymddangos bod canlyniadau profion yn gwrth-ddweud deilliannau yn erbyn y FfLIRh neu asesiadau eraill, y peth pwysicaf fydd i athrawon ystyried y rhesymau dros unrhyw wahaniaeth a rhoi sylw priodol iddynt.

LLAFAREDD

Amcan Cyffredinol

Bydd plant yn cael eu trochi mewn profiadau a gweithgareddau iaith. Byddant yn datblygu eu sgiliau drwy siarad, defnyddio iaith arwyddo/cyfathrebu a gwranddo. Dylid eu hannog i gyfleu eu hanghenion, eu teimladau a'u meddyliau, ailadrodd profiadau, a thrafod gweithgareddau chwarae unigol a gweithgareddau chwarae mewn grŵp. Bydd rhai plant yn cyfathrebu trwy ddulliau heblaw siarad. Bydd plant yn cyfeirio at eu bwriadau trwy ofyn cwestiynau, lleisio/mynegi barn, a gwneud dewisiadau trwy amrywiaeth o gyfryngau a thrwy adeiladu ar brofiadau blaenorol.

Bydd y plant yn cael eu hannog i wrando ar eraill ac ymateb iddynt, ynghyd ag ymateb i'r amrywiaeth o brofiadau bywyd y mae eu cyfoedion yn eu cyfrannu i'r amgylchedd dysgu, ac i ystod o symbyliadau gan gynnwys deunyddiau clywedol a meddalwedd rhyngweithiol TGCh.

Anelwn i ddatblygu gallu disgyblion i wrando ac ymateb yn briodol ac yn effeithiol i ystod o symbyliadau, gan gynnwys y cyfryngau clywedol, clyweledol, gweledol ac aml-gyfrwng; siarad yn hyglyw, ynganu'n glir a goslefu'n briodol; dysgu cyfathrebu gyda chynulleidfaoedd gwahanol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac i wahanol bwrpasau; ac i ddatblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

SGILIAU:

Llinyn 1 – Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Bydd pobl yn cyfleu eu hanghenion, eu teimladau a'u meddyliau; yn ailddweud profiadau wrth eraill; ac yn mynegi eu syniadau drwy rym y gair llafar. Bydd pobl yn cyfeirio at eu bwriadau drwy ofyn cwestiynau, geirio/mynegi barn a gwneud dewisiadau drwy amryw o gyfryngau, a thrwy adeiladu ar brofiadau blaenorol. Mae gwranddo ac ymateb yn briodol i eraill ac amryw o gyfryngau eraill yn elfen hanfodol wrth ddatblygu a defnyddio iaith ac wrth gydweithio a thrafod.

Mae'r llinyn llafaredd ar draws y cwricwlwm yn canolbwyntio ar un elfen – Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau. Mae'r elfen hon wedi'i hisrannu'n dair agwedd.

Siarad

- cyfleu syniadau a gwybodaeth i ystod eang o gynulleidfaoedd ac amryw o sefyllfaoedd.

Gwranddo

- gwranddo ac ymateb i safbwyntiau a syniadau pobl eraill.
- Cydweithio a thrafod
- cyfrannu i drafodaethau a chyflwyniadau
- trafod safbwyntiau/syniadau pobl eraill er mwyn dod i gytundeb.

YSTOD: Datblygu sgiliau disgyblion drwy:

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- brofi gweithgareddau mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored.

- profi gwahanol fathau o weithgareddau chwarae ac ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio, gan gynnwys y rheiny a gychwynnir gan y plant.
- cymryd rhan fel unigolion ac mewn grwpiau o wahanol faint, gan siarad â gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys ffrindiau, y dosbarth, athrawon, ymarferwyr, ac oedolion cyfarwydd eraill ac ymwelwyr.
- profi ystod o symbyliadau gan gynnwys:
 - rhigymau, hwiangerddi, caneuon, storïau a cherddi syml
 - storïau, rhai gwir a rhai dychmygol
 - testunau gwybodaeth
 - testunau'r cyfryngau a thestunau TGCh, megis rhaglenni teledu ar gyfer plant a chwedlau wedi'u hanimeiddio ar CD.
- siarad/cyfathrebu, yn ddigymell a thrwy gyfrwng gweithgareddau strwythuredig, at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys:
 - ailadrodd rhigymau a cherddi, a hynny weithiau oddi ar y cof
 - adrodd ac ailadrodd storïau, rhai gwir a dychmygol.
 - siarad am faterion sydd o ddiddordeb uniongyrchol a phersonol iddynt.
 - trafod testunau gwybodaeth
 - gofyn ac ateb cwestiynau
 - mynegi meddyliau, syniadau a theimladau, hoffterau, cas bethau, ac anghenion.
 - mynegi barn
 - rhagweld canlyniadau a thrafod posibiladau
- cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl a drama, gweithgareddau chwarae dychmygus, gweithgareddau byrfyfyr a pherfformiadau o wahanol fathau.
- ehangu eu geirfa trwy gyfrwng gweithgareddau sy'n hybu eu diddordeb mewn geiriau.
- weld a chlywed gwahanol bobl yn siarad, gan gynnwys pobl gyda gwahanol dafodieithoedd
- profi ac ymateb i symbyliadau a syniadau amrywiol: gweledol, clywedol, clyweledol, electronig, ac ysgrifenedig
- cyfathrebu i wahanol ddibenion, e.e. cyflwyno gwybodaeth, mynegi barn, esbonio syniadau, holi, cyfleu profiadau personol a dychmygus, darbwyllo, dadlau, cyflwyno, archwilio ac ystyried syniadau mewn llenyddiaeth a'r cyfryngau
- siarad a gwrandao yn unigol, mewn parau, mewn grwpiau ac fel aelodau o'r dosbarth
- defnyddio gwahanol dulliau i gyflwyno syniadau, gan gynnwys TGCh, e.e. dulliau drama, trafod a dadlau
- fynegi eu hunain yn hyderus, yn glir ac yn briodol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd;
- defnyddio eu gwybodaeth o ieithoedd (Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill) i ddatblygu eu hyder ieithyddol
- cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar eiriau, eu tarddiad a'u hystyr, dewis ac effaith geiriau.

DARLLEN

Amcanion Cyffredinol

Dylent gael cyfleoedd i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen yn ogystal â deall y confensiynau sy'n gysylltiedig â phrint a llyfrau. Dylem anelu i ddatblygu gallu disgyblion i ddarllen ystod eang o destunau anllenyddol a llenyddol, gan gynnwys testunau'r cyfryngau, gweledol/symudol a TGCh. Dylid sicrhau cyfleoedd iddynt ddarllen i wahanol bwrsasau gan gynnwys defnyddio strategaethau darllen i ddod o hyd i wybodaeth, eu dewis a'u defnyddio, ac i ymateb i'r hyn a ddarllenwyd. Dylid annog disgyblion i fwynhau darllen er diddordeb a boddhad yn ogystal â fel cyfrwng dysgu, ac i fyfyrion a gwerthuso'r hyn a ddarllenant.

Amcanion Penodol

SGILIAU:

Llinyn 2 – Darllen ar draws y cwricwlwm

Drwy ddarllen, bydd pobl yn cael gafael ar syniadau, gwybodaeth a phrofiadau i'w helpu i'w deal nhw eu hunain, deall eu byd ac i ddysgu a gweithio'n effeithiol. Mae'r llinyn darllen ar draws y cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddwy elfen – Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth, ac Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd. Mae'r rhain wedi'u hisrannu'n dair agwedd. Mae Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth wedi'i isrannu i'r agwedd hon.

Strategaethau darllen

- defnyddio amrywiaeth o strategaethau darllen priodol i wneud synnwyr o destunau
- defnyddio strategaethau i wella rhuglder/rhwyddineb darllen
- asesu ansawdd a dibynadwyedd testunau.

Mae Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd wedi'i isrannu'n ddwy agwedd.

Darllen a deall

- deall gwybodaeth anghyfarwydd
- adnabod prif syniadau, digwyddiadau a manylion ategol
- rhagfynegi, casglu, a deall haenau o ystyr
- gwneud cysylltiadau o fewn/ar draws ystod o destunau/themâu
- gwneud ymchwil i ddatblygu dealltwriaeth lawn.

Ymateb a dadansoddi

- trefnu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol
- gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn
- cymharu ystod o safbwyntiau
- gwerthuso cynnwys, cyflwyniad a dibynadwyedd testunau.

YSTOD

Datblygu sgiliau disgyblion drwy roi cyfleoedd i blant:

- glywed darlleniadau bywiog o amrywiaeth o Ffynonellau.
 - cael eu cyflwyno'n helaeth i lyfrau, storïau a geiriau sydd o'u cwmpas.
 - darllen yn unigol ac ar y cyd
 - darllen eu gwaith eu hunain a thestunau eraill yn uchel i wahanol gynulleidfaoedd.
 - cael profiad o ystod eang o brint a ffontiau ac ymateb iddynt, gan gynnwys:
 - llyfrau lluniau, dramâu, storïau sydd wedi'u lleoli mewn mannau cyfarwydd, storïau sydd wedi'u seilio ar fyd dychmygol neu fyd ffantasi, llyfrau sy'n ailadrodd chwedlau gwerin draddodiadol a storïau tylwyth teg, cerddi a siantiau yn ogystal â'r rheiny sy'n cynnwys iaith sy'n dilyn patrwm ac iaith y gellir ei rhagweld storïau a cherddi o Gymru ac ystod o ddiwylliannau eraill
 - testunau gwybodaeth, testunau cyfeirio, a thestunau anllenyddol, gan gynnwys deunyddiau printiedig a chyfrifiadurol.
 - darllen a rhannu llyfrau a thestunau:
 - a ysgrifennwyd gan awduron llyfrau plant adnabyddus
 - sy'n cynnwys addasiadau a chyfieithiadau
 - sy'n cynnwys storïau a cherddi sy'n heriol o safbwynt eu hyd neu eu geirfa.
 - eu hannog i fod yn ddarllenwyr brwd, annibynnol a myfyrgar;
 - gynllunio cyfleoedd a phrofiadau iddynt ddarllen ar eu pennau eu hunain a gydag eraill;
 - profi ac ymateb i ystod eang a chynyddol heriol o destunau sy'n cynnwys:
 - gwybodaeth, testunau cyfeirio a thestunau anllenyddol eraill, gan gynnwys deunyddiau mewn print, Deunyddiau cyfryngol, deunyddiau a delweddau symudol a deunyddiau yn seiliedig ar gyfrifiaduwr;
 - barddoniaeth, rhyddiaith a drama sy'n destunau traddodiadol a chyfoes;
 - testunau sydd â dimensiwn Cymreig a thestunau o ddiwylliannau eraill;
 - ddarllen/gwyllo darnau a thestunau cyflawn:
 - sy'n gynyddol heriol ac sy'n ehangu persbectifau, yn estyn sgiliau meddwl, dealltwriaeth
- Ddeallusol, moesol ac emosiynol
- sydd gydag amrywiaeth o nodweddion ieithyddol, strwythur a threfn ac wedi eu hysgrifennu ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd
 - sy'n dangos ansawdd ac amrywiaeth wrth ddefnyddio iaith
 - sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas yr unfed ganrif ar hugain
 - sy'n adlewyrchu'r deunydd darllen a ddewisir gan ddisgyblion unigol.

YSGRIFENNU

Amcanion Cyffredinol

Dylai'r plant gael ystod eang o gyfleoedd i fwynhau gwneud marciau a mwynhau profiadau ysgrifennu.

Datblygu gallu disgyblion i ddefnyddio'r iaith ysgrifenedig i gyfathrebu'n effeithiol mewn amrediad o ffurfiau, gan addasu arddull a chynnwys i anghenion cynulleidfa a phwrpas, a'u hannog i wneud hynny'n greadigol, yn ddychmygus a chyda ymrwymiad gan drefnu eu syniadau a gwybodaeth ac i ysgrifennu'n gywir. Dilynr strategaeth 'Geirio Gwych' yng nghyfnod allweddol 2 a 'Iaith ar Daith' yn y Cyfnod Sylfaen.

Amcanion Penodol

SGILIAU:

Llinyn 3 – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

Bydd pobl yn ysgrifennu i gofnodi ac archwilio eu meddyliau, eu teimladau a'u barn; i gyfathrebu ag eraill; ac i fynegi eu syniadau trwy rym yr iaith.

Mae'r llinyn ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddwy elfen – Trefnu syniadau a gwybodaeth, ac Ysgrifennu'n gywir. Mae'r rhain wedi'u hisrannu'n bedair agwedd. Mae Trefnu syniadau a gwybodaeth wedi'i isrannu'n ddwy agwedd.¹⁹

Ystyr, dibenion, darllenwyr

- cynllunio ac addasu arddull ysgrifennu i weddu i'r gynulleidfa a'r diben
- gwella ysgrifennu drwy adolygu ac ailddrafftio annibynnol
- ysgrifennu i sicrhau bod pwnc yn cael ei gwmpasu'n gyflawn
- gwella cyflwyniad ysgrifennu (gan gynnwys drwy ddefnyddio TGCh)
- ystyried, golygu ac ailddrafftio i wella gwaith ysgrifennu.

Strwythur a threfn

- defnyddio strwythur sy'n briodol i'r diben ac sy'n ganolbwynt i'r dasg
- dewis, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn briodol
- sefydlu strwythur i drefnu ysgrifennu.

Mae Ysgrifennu'n gywir wedi'i isrannu'n ddwy agwedd.

Iaith

- defnyddio iaith yn briodol i ysgrifennu
- defnyddio termau technegol a geirfa briodol ac iaith sy'n addas i gyd-destun pwnc penodol.

Cystrawen, atalnodi, sillafu, llawysgrifen

– datganiadau penodol sy'n cyfeirio at ddilyniant ym mhob agwedd yn dibynnu ar y math o ysgrifennu a lefel oedran.

YSTOD:

Datblygu sgiliau disgyblion drwy:

Dylid rhoi cyfleoedd i blant:

- ysgrifennu mewn amgylcheddau dysgu a geir dan do ac yn yr awyr agored.
- ysgrifennu trwy gyfrwng ystod o weithgareddau a gaiff eu cynllunio a'r rheiny a gychwynnir gan y plant.
- ysgrifennu'n annibynnol ac ar y cyd wrth ymateb i amrywiaeth o symbyliadau, ar bynciau sydd o ddiddordeb ac o bwys iddynt, gan gynnwys storïau, cerddi, gweithgareddau dosbarth a phrofiadau personol.
- ysgrifennu mewn ystod o genres gan ymgorffori rhai o wahanol nodweddion y ffurfiau hynny, e.e. *storïau*, *dyddiaduron*; cerddi; nodiadau, e.e. *rhestrau*, *penawdau*; cofnodion, e.e. *arsylwadau*; a negeseuon, e.e.

hysbysiadau, *gwahoddiadau*, *cyfarwyddiadau*

- ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd gan gynnwys eu cyfoedion, oedolion, aelodau'r teulu, a hwy eu hunain.
- **ysgrifennu i bwrpasau amrywiol** - i gynhyrchu a chyfleu syniadau; i ddifyrru, dychmygu, disgrifio, creu effeithiau ac ennyn diddordeb; i adrodd, hysbysu, cyfarwyddo, esbonio, darbwyllo, ac i draethu; i ddadansoddi ac archwilio syniadau a barn mewn llenyddiaeth ac yn y cyfryngau;
- **ysgrifennu ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd go-iawn a/neu ddychmygus;**
- **ysgrifennu mewn ystod o wahanol ffurfiau** e.e. stori, disgrifiad/portread, ymson, barddoniaeth, drama, nodiadau, llythyrau personol a ffurfiol, adroddiad papur newydd, adroddiadau ffurfiol, dyddiaduron, e byst, poster a hysbysebion, ...
- **ysgrifennu mewn ymateb i ystod eang o symbyliadau gweledol, clywedol, clyweledol ac ysgrifenedig.**

Llinynnau rhifedd

Llinyn 1 – Datblygu ymresymu rhifyddol

Mae'r FfLIRh yn canolbwyntio ar bedwar llinyn rhifedd, gydag elfennau gwahanol o fewn y llinynnau hyn. Mewn rhai achosion, mae'r elfen yn gasgliad o feysydd cysylltiedig, sy'n adlewyrchu'r ffaith eu bod wedi'u cydgyssylltu ac ni ddylid eu rhannu ymhellach. Er enghraifft, yng nghyd-destun bywyd go iawn, mae arwynebedd wedi'i gysylltu â chyfaint yn ogystal ag ongl a safle; felly maent yn cyfrif fel un elfen (h.y. Arwynebedd a chyfaint; Ongl a safle) ac nid dwy elfen. Mae'r disgwyliadau'n adlewyrchu'r cysylltiad hwn. Mae'r disgwyliadau ym mhob un o'r llinynnau yn helpu athrawon i gael manylder yng nghynnydd disgwylid y sgiliau hyn yng nghyd-destun oedran priodol. Bydd y deunyddiau enghreifftio ategol yn dangos sut y gall y sgiliau hyn gael eu dangos mewn tasgau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r elfennau yn y llinyn hwn yn cyfeirio at y sgiliau y mae eu hangen i adnabod pa brosesau sy'n ofynnol i ddatrys problem bywyd go iawn, sut i fynegi'r ymagwedd honno yn eu gwaith, a sut i wneud casgliadau drwy adolygu eu prosesau a'u hatebion eu hunain ar sail rhesymolrwydd. Mae'r llinyn Datblygu ymresymu rhifyddol yn canolbwyntio ar dair elfen.

Adnabod prosesau a chysylltiadau.

Cynrychioli a chyfathrebu.

Adolygu.

Pan wyddys sut i ddatrys problem, ceir cyfres ar wahân o sgiliau a ddefnyddir i gwblhau'r gweithdrefnau a chael at yr ateb cywir. Gall y gweithdrefnau hyn gael eu rhannu ymhellach i ddefnyddio sgiliau rhif, mesur a thrin data, a adlewyrchir yn strwythur y gydran rhifedd.

Llinyn 2 – Defnyddio sgiliau rhif

Mae sgiliau rhif yn disgrifio'r sgiliau sylfaenol y mae eu hangen er mwyn gallu defnyddio a thrin rhifau yn hwylus wrth gwblhau gweithdrefnau. Yma bydd dysgwyr yn dysgu sut i rifo, bod trefn arbennig i rifau, bod modd cynrychioli rhifau nad ydynt yn gyfanrifau mewn ffyrdd gwahanol, a sut i ddefnyddio strategaethau gwirio i sicrhau bod y weithdrefn wedi cael ei chwblhau'n gywir.

Mae cyd-destun penodol arian wedi'i adlewyrchu yn y llinyn hwn hefyd a blociau adeiladu addysg ariannol. Mae'r llinyn Defnyddio sgiliau rhif yn canolbwyntio ar bum elfen.

- Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau.
- Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb.
- Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig.
- Amcangyfrif a gwirio.
- Rheoli arian.

Llinyn 3 – Defnyddio sgiliau mesur

Mae sgiliau mesur yn adlewyrchu'n bennaf bwysigrwydd gwybod pa fesuriadau i'w defnyddio ym mha gyd-destun a pha unedau safonol i'w defnyddio, yn ogystal â rhoi manylder ynghylch sut a phryd y gellir cyflwyno'r cysyniadau hyn. Yn ddiweddarach mae'r cysyniadau o gymysgu unedau i roi mesurau cyfansawdd yn cael eu cyflwyno, e.e. cyflymder fel metrau yr eiliad. Mae'r llinyn Defnyddio sgiliau mesur yn canolbwyntio ar bedwar elfen.

- Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd.
- Amser.
- Tymheredd.
- Arwynebedd a chyfaint. Ongl a safle.

Llinyn 4 – Defnyddio sgiliau data

Mae cynrychioli canlyniadau datrys problem neu ateb cwestiwn yn cynnwys trin data, a gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd, megis trwy un ateb, tabl neu ryw fath o siart. Mae defnyddio'r weithdrefn trin data cywir, neu'r un orau, yn sgil trefniadol ynddo'i hun, ac mae'r llinyn hwn o'r gydran yn helpu i ddangos pa sgiliau y gall athrawon ddisgwyl eu gweld gan ddysgwyr mewn grŵp blwyddyn arbennig sy'n gweithredu ar eu lefel ddisgwylid.

Mae sgiliau data uwch hefyd yn caniatáu i ddysgwyr wneud casgliadau a llunio damcaniaethau o'r canlyniadau. Mae'r llinyn Defnyddio sgiliau data yn canolbwyntio ar dair elfen.

- Casglu a chofnodi data.
- Cyflwyno a dadansoddi data.
- Dehongli canlyniadau.

Medrau Allweddol (datblygu meddwl, rhif a TGCh):

Dylai plant gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwysu a mireinio eu sgiliau trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Bydd dilyniant mewn tasgau yn symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; a'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd. Bydd y plant yn symud ymlaen o angen cymorth i weithio'n fwy annibynnol. Byddant yn symud o wrando a rhyngweithio ag eraill fel strategaeth fwriadol ar gyfer dod i ddeall. Byddant yn symud o wrando a rhyngweithio ag eraill mewn ffordd gyffredinol i sefyllfa lle byddant yn dewis gweithio ag eraill fel strategaeth fwriadol ar gyfer dod i ddeall. Drwy hyn byddant yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol a chyd-ddibynnol.

Mae'r FfLIRh yn canolbwyntio ar bedwar llinyn rhifedd, gydag elfennau gwahanol o fewn y llinynnau hyn. Mae'r disgwyliadau ym mhob un o'r llinynnau yn helpu athrawon i gael manylder yng nghynnydd disgwyliedig y sgiliau hyn mewn cyd-destun oedran priodol. Bydd y deunyddiau enghreifftio ategol yn dangos sut y gall y sgiliau hyn gael eu dangos mewn tasgau ar draws y cwricwlwm. Mae'r llinynnau wedi'u nodi yma.

Datblygu meddwl

Bydd y plant yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**, sydd yn eu helpu cael gaffael ar ddealltwriaeth well ac yn eu galluogi i archwilio a gwneud synnwyr o'u byd eu hunain. Mae'r prosesau hyn yn galluogi plant i feddwl mewn modd creadigol a beirniadol, cynllunio eu gwaith, cyflawni tasgau, dadansoddi a gwerthuso eu casgliadau, a myfyrio ar eu dysgu gan wneud cysylltiadau o fewn a'r tu allan i'r lleoliad/ysgol. Ni ddylid ystyried y prosesau o ddatblygu meddwl, sef cynllunio, datblygu a myfyrio, fel dull penodol o ddysgu ac addysgu. Nid oes gan bob proses le penodol mewn tasg. Dylai'r tair proses fod yn gydgyfnewidiol.

Yng nghyfnod allweddol 2 bydd y dysgwyr yn archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac yn ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill. Byddant yn dadansoddi, yn strwythuro ac yn trefnu eu gwaith; yn defnyddio iaith yn greadigol; yn defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu; yn defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi; yn disgrifio cysylltiadau a'r hyn sy'n debyg mewn ieithoedd; yn adnabod patrymau ac yn ffurfio rheolau; yn trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

Datblygu TGCh

Mae'r adran TGCh yn adeiladu ar lawer o'r gwaith sydd wedi'i wneud yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar ddatblygu TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae'n dangos dilyniant mewn gallu TGCh ar ffurf chwe cham, ac mae'n cyfuno'r sgiliau o Orchymyn *Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru* a gofynion Sgiliau Allweddol TGCh.

Mae dau llinyn i'r fframwaith:

- dod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu
- creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

Mae'r llinyn cyntaf yn ymwneud â chwilio am wybodaeth at ddibenion penodol, a chasglu neu brosesu'r wybodaeth honno mewn ffurfiau gwahanol er mwyn datblygu gwybodaeth newydd, a all gael ei defnyddio wrth ffurfio barn a helpu i wneud penderfyniadau. Mae'r ail llinyn yn mapio'r gallu i ddefnyddio TGCh i gyfleu syniadau, safbwyntiau a bwriadau, gan ddewis ffyrdd priodol o roi'r wybodaeth sy'n ystyried y gynulleidfa neu'r sawl y bwriadwyd yr wybodaeth ar eu cyfer.

Mae'r prif bethau sy'n dangos dilyniant mewn sgiliau TGCh yn y ddau llinyn fel a ganlyn:

- synnwyr cynyddol o ddiben y gwaith ac ymwybyddiaeth gynyddol o'r gynulleidfa.
- cymhwysedd a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio meddalwedd yn greadigol.
- newid graddol o ddefnyddio adnoddau TGCh sydd wedi'u pennu, tuag at ddewis adnoddau sy'n gweddu i'r dasg a'r diben.

Nid yw'r fframwaith hwn yn ceisio dyblygu holl gynnwys y Gorchymyn TGCh. Yn hytrach mae'n cynnwys detholiad o sgiliau o'r Gorchymyn TGCh sy'n cynnig cyfleoedd clir ar gyfer cyflwyno ar draws y cwricwlwm ac ar gyfer cefnogi dysgu ac addysgu mewn amrywiaeth o bynciau. Mae defnyddio TGCh mewn ffordd briodol a diogel wedi'i blannu'n gadarn drwy'r fframwaith i gyd. Bydd y dysgwyr yn datblygu o ran eu gallu i ddefnyddio sgiliau a thechnegau TGCh ac o ran eu dealltwriaeth o fanteision a pheryglon defnyddio'r technolegau cyfredol a'r technolegau sy'n dechrau dod i'r amlwg. Byddant yn sicrhau dealltwriaeth o bwysigrwydd defnyddio arferion diogel a chyfreithiol sy'n lleihau'r peryglon i ddata, iddynt eu hunain ac i bobl eraill wrth gyfathrebu'n ddigidol. Bydd y dysgwyr yn symud ymlaen o weithio'n ddiogel gyda chymorth i weithio'n ddiogel ac yn gyfrifol heb oruchwyliaeth, ar sail dealltwriaeth drylwyr o'r pynciau trafod a'r peryglon o dan sylw.

Dylai sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth TGCh plant gael eu datblygu drwy ystod o brofiadau sy'n cynnwys (i) **darganfod a datblygu gwybodaeth a syniadau**, (ii) **creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**. Dylid arsylwi ar allu TGCh plant gyda dealltwriaeth o ddatblygiad plant a'r camau y bydd y plant yn mynd trwyddynt. Dylid rhoi cyfleoedd i blant datblygu eu sgiliau gan ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Yng nghyfnod allweddol 2 bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy

ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd. Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh trwy gyfathrebu a rhannu gwybodaeth, a thrwy ddefnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

Dylai'r disgyblion allu:

- Defnyddio eu medrau prosesu geiriau i wella ansawdd eu hysgrifennu drwy ddrafftio, golygu ac aiddrafftio gwaith.
- Cyfathrebu eu syniadau a'u gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau, gan ystyried anghenion eu cynulleidfa.
- Defnyddio offer sain a fideo yn fedrus i gofnodi a gwella eu gwaith llafar ac i ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o iaith, gan gynnwys ffurfiau iaith safonol lle bo'n briodol.
- Defnyddio TGCh i adfer, cyfuno a chyflwyno gwybodaeth a geir o ystod o ffynonellau, gan gynnwys CD-Rom, tapiau sain a fideo wedi'u recordio ymlaen llaw.

Mynediad a Chyfleoedd cyfartal

Bydd staff yr ysgol yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff pob disgybl gyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial yn y maes hwn. Bydd amgylchedd yr ystafell ddosbarth, ac amgylchedd yr ysgol yn gyffredinol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob disgybl a'i hawl i gael mynediad llawn i'r rhaglen astudio er mwyn ymateb i'w anghenion a rhoi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau ieithyddol.

Lle bo'n briodol, ceir darpariaeth wahaniaethol er mwyn datblygu ac ymestyn disgyblion i'w llawn botensial gan roi sylw i'w sgiliau sylfaenol/allweddol.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ddatblygu dealltwriaeth plant o hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru ar draws yr holl Feysydd Dysgu mewn modd integredig. Dylai'r plant werthfawrogi'r gwahanol ieithoedd, delweddau, gwrthrychau, seiniau a blasau sy'n rhan

annatod o Gymru heddiw, a meithrin ymdeimlad o berthyn i Gymru a dylent ddeall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru yn ogystal â'r iaith. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i ddatblygu a hybu'r iaith Gymraeg. Bydd pob lleoliad/ysgol yn gweithredu rhaglen addysg

Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen i blant 3 i 7 oed. Dylai'r lleoliadau a'r ysgolion hynny a ddiffinnir fel darparwyr cyfrwng Cymraeg ddilyn rhaglen addysg y Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a

Chyfathrebu. Ni fydd angen iddynt addysgu'r Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg. Mewn lleoliadau ac ysgolion lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng cyfathrebu, dylid datblygu sgiliau Cymraeg plant yn raddol drwy'r Cyfnod Sylfaen drwy weithredu'r Maes Dysgu Datblygu'r Gymraeg.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gafaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru. Dylai dysgwyr 7-11 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Bydd **Cymraeg** yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy roi ymwybyddiaeth i'r dysgwyr o'r dreftadaeth lenyddol a diwylliannol wrth

iddynt astudio pob math o destunau, a bydd yn rhoi cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg fel ffordd naturiol o gyfathrebu. Bydd yn rhoi cyfle unigryw i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith i ddysgu iaith Cymru a bod yn ddwyieithog.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes. Bydd **Cymraeg** yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol y dysgwyr trwy ddatblygu eu hymwybyddiaeth o rôl a gwahanol gyfraniadau ieithoedd

lleiafrifol ac ieithoedd byd-eang mewn cymdeithas. Drwy ddatblygu eu gwerthfawrogiad o ddau ddiwylliant byddant yn dod i ddeall diwyllianau eraill yn well a thyfu'n oddefol ohonynt. Byddant yn cydweithio ac yn parchu rôl pobl eraill. Drwy ymchwilio a gwerthuso testunau yn ymwneud ag ystod o themâu gellid annog datblygiad hunan-wybodaeth, aeddfedrwydd emosiynol ac empathi â'r cyflwr dynol.

Mabwysiadwyd y Polisi: Gwanwyn 2012
Cadeirydd : Dr Einir Young

Pennaeth: C Hughes

Adolygwyd: Haf 2013
Cadeirydd: Parch J Matthews

Pennaeth: C Hughes

Adolygwyd: Gwanwyn 2014
Cadeirydd: Parch J Matthews

Pennaeth: C Hughes

Adolygwyd Gwanwyn 2016-03-15
Cadeirydd: Parch J Matthews

Pennaeth: Mr Elfed Morgan Morris